

TUDALEN 53

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 13 Rhagfyr 2021** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL:- Y Dirprwy Faer, Cynghorydd Gwynant Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Les Day, Medwyn Hughes (ymunodd â'r cyfarfod am 8.16pm), John Martin, Huw Wyn Jones, Kieran Jones, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Luke Tugwell, George Turner.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Delyth Davies (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

207/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eu Teilyngdod y Maer, Cynghorydd Owen Hurcum

208/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

209/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

210/21 CEISIADAU CYNLLUNIO

Ceisiadau Strategol

Arfordir Bae Hirael Bay Coast, Bangor, LL57 1AD (Cyf: C21/1174/11/LL. Ward: Hirael)

Adeiladu amddiffynfa llifogydd yn ardal Hirael o Fangor i gynnwys:-

1. Gwelliannau i'r llwybr beicio.
2. Adeiladu wal concriid newydd i ddisodli'r caergawellau presennol gan ddilyn ôl-troed y wal mor presennol.
3. Ail-adeiladu llithrfa.
4. Codi arglawdd bridd.
5. Gosod 2 giât llifogydd.
6. Codi uchder rhan o ffordd Lon Glandŵr ynghyd a chodi wal concriid newydd.

Sylwadau

Roedd yr aelodau sy'n cynrychioli'r ardal dan sylw yn bresennol a rhoesant ychydig o gefndir i'r gwaith hwn. Arferai fod llwybr ceffylau ar hyd y safle arfaethedig a fyddai'n dod yn llwybr beicio newydd. Y gobaith fyddai ymestyn y llwybr i Borth Penrhyn lle byddai wedyn yn ymuno â Lôn Las Ogwen.

Dywedwyd fod codi uchder yn wal yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i liniaru'r posibilrwydd o lifogydd. Fodd bynnag, gyda lefelau'r môr yn codi a phrofiad y stormydd diweddar, dadleuwyd na fyddai unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd yn para ddim pellach na 2060.

Mae cefn Glandwr Terrace yn wynebu perygl llifogydd hefyd. Teimlai'r aelod lleol na fu digon o gyhoeddusrwydd am y cynllun, a hoffai hi ymgynghori â'r bobl sy'n byw yn Glandwr Terrace.

Y teimlad cyffredinol oedd yr hoffai'r aelodau i gyd gael mwy o wybodaeth am y cynllun cyfan. Y dyddiad cau arferol i dderbyn sylwadau fyddai 29 Rhagfyr ond nid oedd yr aelodau'n siŵr a fyddai'r Nadolig yn effeithio ar hyn. Os daw'r dyddiad cau ar eu gwarthaf, yna gwahoddwyd yr aelodau i anfon eu sylwadau at y Dirprwy Faer.

PENDERFYNWYD peidio â gwrthwynebu'r cynllun, ond gohirio'r penderfyniad nes bod mwy o wybodaeth wrth law. Yn y cyfamser, roedd y Cyng Huw Wyn Jones wedi cael ei wahodd i gyfarfod am y mater hwn a dywedodd y byddai'n anfon y canfyddiadau i'r aelodau drwy e-bost. Deallwyd wedyn fod rhai aelodau wedi cael gwybod am y cyfarfod, ond nid pawb.

Y Cyfarwyddwr Dinesig i anfon gwybodaeth am y cyfarfod ddydd Mercher i bawb.

TUDALEN 54

211/21 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

212/21 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 6.21 pm

Cyfarwyddwr y Ddinas – Iwan Williams – City Director